PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 12 MAI 2016

Present: County Councillor McKerlich(Chairperson)
County Councillors Dilwar Ali, Howells, Hyde a/ac Weaver

## 76 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Javed a Simmons.

## 77 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Weaver, a ddatganodd fuddiant personol parhaol, gan mai ef yw'r Aelod Cabinet Cynorthwyol ar gyfer Llyfrgelloedd.

## 78 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2016 yn gywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 79 : ARDAL GWELLA BUSNES - RHAGBENDERFYNIAD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Arweinydd, y Cyng Phil Bale, y Cyng Peter Bradbury (Aelod Cabinet - Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Mentrau Cymdeithasol) a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr - Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Arweinydd wneud datganiad, lle dywedodd fod hyn yn gyfle i ddod â'r gymuned fusnes ynghyd a nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer Canol y Ddinas. Aeth yn ei flaen i ddweud bod Caerdydd yn ddinas sydd yn ffynnu, ond bod yn rhaid iddi gystadlu â dinasoedd eraill sydd yn gwella'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig yn barhaus. Gan hynny, roedd angen cystadlu a chydweithio'n agosach â busnesau; byddai hyn yn cael ei benderfynu drwy bleidlais ym mis Mehefin. Gallai'r trosoledd ddarparu mwy o gyllid i Ganol y Ddinas a chreu cynnig gwell i fusnesau a phreswylwyr. Byddai'r ymgysylltiad â busnesau yn parhau. Ceir proses i gynnal ail bleidlais ar ôl 5 mlynedd, a phryd hynny gellir tynnu'r gefnogaeth yn ôl os teimlir nad yw'r Ardal Gwella Busnes wedi cyflawni, er bod mwyafrif helaeth yr ardaloedd hynny wedi parhau (cyfradd ail bleidlais o 90% ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes presennol).

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle ychwanegodd y Cynghorydd Bradbury mai'r drefn gywir oedd cyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu cyn y Cabinet, gan fod y Pwyllgor Craffu yn rhoi mewnbwn i'r Adroddiad Cabinet, a diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith yng nghyswllt hyn.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Ardal Gwella Busnes Caerdydd, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol: Trosolwg; Datblygu Ardal Gwella Busnes Caerdydd; Grŵp Gorchwyl; Trosolwg o'r Cynnig a Materion.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am y cyflwyniad, a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau ynghylch y trefniadau ar gyfer rheoli a llywodraethu'r Ardal Gwella Busnes, a gofyn a fyddai'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig. Dywedodd y swyddogion y byddai'r ardal yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig dielw. Nododd yr aelodau'r gost o £120k y flwyddyn ar gyfer gweinyddu a rheoli, a gofyn faint o aelodau staff oedd wedi'u cynnwys yn rhan o hyn. Nid oedd gan swyddogion wybodaeth am niferoedd y staff eto.

- Gofynnodd yr aelodau am sylwadau ynglŷn â'r Ardoll Hwyr y Nos. Dywedodd y Cynghorydd Bradbury na ellid diystyru unrhyw beth, ond y gallai fod yn annoeth gofyn am ardoll hwyr y nos ar yr un pryd ag ardoll ar gyfer yr Ardal Gwella Busnes. ei bod hi'n bwysig gweld a oedd yr Ardal Gwella Busnes yn llwyddiannus i ddechrau. Ychwanegodd y swyddogion na ddylai unrhyw fusnes orfod talu ddwywaith.

- Gofynnodd yr aelodau am gysylltiadau'r Ardal Gwella Busnes â phreswylwyr Canol y Ddinas, ac ai Rheolwr Canol y Ddinas yn unig fyddai'n ymgysylltu â hwy. Eglurodd y swyddogion y byddai cysylltiadau anffurfiol yn cael eu hannog, na allai preswylwyr fod yn rhan o'r Ardal Gwella Busnes, ond bod perthynas uniongyrchol rhwng preswylwyr a chynrychiolwyr o fwrdd yr Ardal Gwella Busnes yn allweddol; roedd hi felly'n bwysig sicrhau eiriolaeth dda rhyngddynt.

- O ran ardoll hwyr y nos, er bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Ardal Gwella Busnes, byddai'n drueni colli ffocws er budd ardoll o 1% ar werth trethadwy. Dywedodd yr Arweinydd fod gan yr Ardal Gwella Busnes fuddiant yn economi'r dydd ac yn economi hwyr y nos, gan gynnwys gwariant ychwanegol ar lanhau, a buddsoddiad ychwanegol ar gyfer glanhau yn ystod digwyddiadau ac ati. Ychwanegodd fod hyn, yn hytrach na cholli ffocws ar barth y cyhoedd, wedi datgloi mecanwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghanol y Ddinas. Ychwanegodd swyddogion fod yr Ardal Gwella Busnes yn cynnig cyfle i wario mwy na'r hyn y byddai ardoll hwyr y nos yn ei godi, ac roedd yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i berchnogion busnes.

- Nododd yr aelodau y datblygiadau mawr yng Nghanol y Ddinas. Roeddent yn ystyried y gellid gosod amod yn gysylltiedig â datblygiadau newydd i fuddsoddi mewn cyfleusterau ychwanegol yng Nghanol y Ddinas, fel toiledau cyhoeddus. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yr argymhellion o adroddiad Economi'r Nos CASSC wedi cael eu hymgorffori yn Adroddiad y Cabinet.

- Nododd yr Aelodau fod gan Abertawe beiriant sydd yn rhewi gwm cnoi ar y palmentydd, a bod hyn yn enghraifft o'r hyn y gellid buddsoddi ynddo. Nodwyd bod aelod o fwrdd Ardal Gwella Busnes Abertawe yn aelod o'r Grŵp fel bo modd rhannu syniadau.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, am roi eu cyflwyniadau a'u datganiadau, ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Arweinydd ar ran y Pwyllgor i gyfleu'r sylwadau.

## 80 : PERFFORMIAD CHWARTER 4

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Arweinydd, y Cyng Phil Bale, y Cyng Peter Bradbury (Aelod Cabinet - Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Mentrau Cymdeithasol) a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr - Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Arweinydd wneud datganiad lle byddai'n dweud ei bod hi wedi bod yn chwarter prysur, ac mai penllanw hynny oedd llofnodi Bargen y Ddinas; bu llawer o waith ar brosiectau mawr, gan gynnwys yr Arena ac opsiynau ar gyfer Neuadd y Ddinas.

Rhoddwyd cyflwyniad aelodau ar Berfformiad y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd yn Chwarter 4, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol: Sefyllfa'r Gyllideb ar Ddiwedd y Flwyddyn Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y Sgwâr Canolog, yr Arena Amlbwrpas, y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, y Strategaeth Twristiaeth, Bargen y Ddinas, y Chwarter Treftadaeth a Lleoliadau Diwylliannol; a Dangosyddion Perfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad, a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau a oedd gostyngiad o 9% i'r gwerth ychwanegol gros yn destun pryder. Er bod y gwerth ychwanegol gros wedi gostwng, dywedodd y swyddogion fod y gyfradd gyflogaeth hefyd wedi gostwng. Y sail resymegol wrth wraidd hyn oedd y gostyngiad yn nifer y gweithwyr sector cyhoeddus, sef gostyngiad o oddeutu 4000, yn ogystal a chyfradd gyflogaeth y grŵp oedran 50+. Ychwanegodd y swyddogion fod y ffigur o 9% hefyd yn cynnwys Bro Morgannwg, gan ei bod yn cael ei chyfrifo ar sail ffin wahanol i'r ffin flaenorol.

- O ran y Gyfnewidfa Lo, nododd yr aelodau y gofynnwyd cwestiynau yn y cyfarfod blaenorol, a dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf. Fodd bynnag, y diwrnod canlynol cyflwynwyd datganiad i'r wasg. Roedd yr aelodau am gael cyfle i graffu ar y mater. Esboniodd y swyddogion nad oeddent yn ymwybodol y byddai'r datblygwr yn cyflwyno datganiad i'r wasg y diwrnod canlynol; roeddent hwy wedi tybio y byddai'r datganiad yn cael ei ryddhau ymhen pythefnos/tair wythnos; mae'r mater ar yr agenda ar gyfer y pwyllgor craffu nesaf.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd cynllun y Ganolfan Ddinesig ar amser ar gyfer chwarter un. Dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn fater canolog. Byddai Neuadd y Ddinas yn parhau i fod yn rhan annatod o'r Ganolfan Ddinesig, a byddai cynigion ynghylch Neuadd y Ddinas, parth y cyhoedd a symudiad pobl drwy'r ardal i mewn i Ganol y Ddinas yn cael eu cyflwyno gerbron y pwyllgor.

- Gofynnodd yr aelodau pryd y byddent yn cael gweld y paramedrau ar gyfer caffael y Metro. Eglurodd yr Arweinydd mai prosiect wedi'i sbarduno gan Lywodraeth Cymru ydoedd, gydag elfen o gyd-gomisiynu, wedi'i gytuno ym Mhenawdau Telerau Bargen y Ddinas. Ychwanegodd ei bod yn dal yn gynnar i lywodraeth leol ddylanwadu a siapio'r prosiect seilwaith, ond bod llywodraeth leol yn bartneriaid yn y prosiect hwnnw.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, am roi eu cyflwyniadau a'u datganiadau, ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Arweinydd ar ran y Pwyllgor i gyfleu'r sylwadau.

## 81 : MARCHNAD CANOL CAERDYDD - DIWEDDARIAD YN DILYN YMHOLIAD T&F 2014

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty (Cyfarwyddwr - Datblygu Economaidd) a Helen Jones (Rheolwr Ystadau Strategol - Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod. Roedd y Pwyllgor ar y blaen i'r amserlen, a chytunwyd y dylid ystyried yr eitem heb yr Aelod Cabinet.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Farchnad Canol Caerdydd, a oedd yn cynnwys: Cyflwyniad ar yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma. Rheoli Gwastraff a Gwelliannau i'r Adeilad; Brandio'r Farchnad; Marchnata; Rheoli'r Farchnad a'i Chyfeiriad i'r Dyfodol.

Ychwanegodd y swyddogion fod tensiynau rhwng CCMTA a'r Cyngor yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddiwyd yn gysylltiedig â thaliadau rhent a gwasanaeth. Dros y 12 mis diwethaf, roedd swyddogion wedi gweithio'n galed i ddatrys materion, ac roeddent yn agos iawn at setlo hyn, ac at sefydlu'r holl gytundebau tenantiaeth. Dywedodd y swyddogion eu bod am i denantiaid fod yn rhagweithiol wrth reoli'r farchnad, a'u bod yn ystyried newidiadau Llywodraethu er mwyn rhoi mwy o gyfrifoldeb i denantiaid, yn enwedig o ran taliadau gwasanaeth.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am y cyflwyniad, a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw faterion wedi codi yn gysylltiedig ag ardrethi busnes ac eithriadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ardrethi hynny. Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o hyn, gan ddweud mai'r materion yr oeddent hwy yn ymwybodol ohonynt oedd y taliadau rhent a'r taliadau gwasanaeth yn hytrach na'r ardrethi busnes.

- Nododd yr aelodau mai natur unigryw'r masnachwyr oedd i gyfrif am lwyddiant y farchnad, a gofynnwyd pa brosesau oedd ar waith i sicrhau mai ond unedau o ansawdd da fyddai'n cael eu gosod wrth lenwi unedau gwag. Dywedodd swyddogion eu bod yn hysbysebu unedau gwag ac yn ceisio sicrhau mathau o ddefnydd nad oeddent yn gwrthdaro â'i gilydd; yn y tymor hwy, byddent yn hoffi cael unedau o safon uwch, ac ymestyn oriau agor y farchnad i'w defnyddio gyda'r hwyr. Ychwanegodd y swyddogion fod tenantiaid unigol yn meddiannu gormod o stondinau, gan ddefnyddio ffrindiau a pherthnasau i gynnal y stondinau hynny, a bod angen adolygu hyn; maent bellach yn hysbysebu'r holl gyfleoedd mewn unedau gwag, dylai'r farchnad fod yn lle i fusnesau uchelgeisiol sefydlu a chychwyn gweithredu ar gostau isel.

- Gofynnwyd i'r aelodau am gyfradd trosiant yr unedau. Esboniodd y swyddogion nad yw masnachwyr yn symud mor aml â hynny, a bod y masnachwyr presennol yn cymryd unedau cyn gynted ag y byddant yn wag. Gan hynny, ceir bellach uchafswm i nifer y stondinau y gall un perchennog busnes eu meddiannu.

- Gofynnodd yr aelodau beth oedd dyheadau'r swyddogion o ran y mathau o fusnesau yr hoffent eu gweld yn y farchnad. Dywedodd y swyddogion yr hoffent gael cymysgedd amrywiol - bwyd stryd, marchnad ffermwyr, unedau cynnyrch moesegol.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y stondinau dros dro y tu allan i'r farchnad, gan ofyn a oedd swyddogion wedi holi'r meddianwyr i weld a fyddent yn meddiannu'r unedau dan do. Dywedodd swyddogion eu bod wedi holi'r unigolion hynny.

- Dywedodd y swyddogion mai ond 1 neu 2 o unedau oedd yn wag ar hyn o bryd, roedd gweddill yr unedau yn llawn yn gyson. Roedd y swyddogion hefyd yn gwirio'r defnydd presennol er mwyn sicrhau nad oedd yr unedau'n cael eu defnyddio fel cyfleusterau storio, ac nad oeddent ar agor am oriau masnachu byr yn unig; byddai'r materion hyn yn cael eu cynnwys yn y cytundebau tenantiaeth o hyn allan, a byddai'r rheolwr ar-safle mewnol hefyd yn cynorthwyo gyda hyn.

- Pan ofynnwyd ynghylch masnachu ar y Sul, ac a ystyriwyd yr is-ddeddfau'n gysylltiedig â hyn, dywedodd y swyddogion fod llawer o'r masnachwyr yn gweithio chwe diwrnod yr wythnos a heb gyflogi unrhyw staff, ond roedd hyn yn fater y byddai'r swyddogion yn ei ystyried ymhellach; un opsiwn fyddai agor ar y Sul pan fyddai Canol y Ddinas yn brysur, a chau ar ddiwrnod tawelach.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, am roi eu cyflwyniadau a'u datganiadau, ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Arweinydd ar ran y Pwyllgor i gyfleu sylwadau'r aelodau.

## 82 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd Drafft Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar gyfer 2015/2016 gerbron yr Aelodau; cyn ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2016.

Rhestrai'r Adroddiad Blynyddol yr holl eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgor rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Mai 2016, ac amlygai'r testunau lle'r oedd y Pwyllgor wedi sicrhau'r mwyaf o effaith.

Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent am gynnig unrhyw ddiwygiadau neu arsylwadau ynglŷn â drafft yr Adroddiad Blynyddol cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn. Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddaru i gynnwys manylion cyfarfod heddiw, ac y byddai Rhagair y Cadeirydd yn cael ei lunio.

CYTUNWYD - Y dylid cyflwyno Drafft o Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant 2015/2016 i'w ystyried yn y Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2016.

## 83 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Roedd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 9 Mehefin 2016 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.